# Y ci dewr

Caredigrwydd / Gofal / Cyfeillgarwch

Doedd neb eisiau Ben. Mwngrel mawr du oedd Ben. Roedd wedi bod yn y cartref i g_n ers blwyddyn gron gyfan. Bob dydd byddai rhywun yn dod heibio i chwilio am gi. Bob nos byddai Ben yn yr un hen le. Neb eisiau Ben. Roedd perchnogion y ganolfan yn ddigon caredig. Byddai'n cael digonedd o fwyd a chael mynd am dro unwaith y dydd.

Un diwrnod clywodd sgwrs fu bron â thorri ei galon.

"Mi fydd rhaid i ni gael gwared â Ben. Mae o wedi bod yma ers blwyddyn erbyn hyn. Mae'r gost o'i gadw yn mynd yn ormod," meddai Sioned un o'r genethod oedd yn gweithio yno.

"Beth fydd hynny yn ei olygu?" gofynnodd yr eneth arall iddi.

Newydd ddechrau gweithio yn y cartref oedd Lyn. Roedd hi'n galon feddal iawn.

"Bydd rhaid i'r milfeddyg ei roi i gysgu," oedd yr ateb.

"O na! Ben druan," meddai Lyn.

Y noson honno bu Lyn yn pendroni. Roedd hi newydd symud i fflat ar ei phen ei hun. Byddai ci yn gwmpeini iddi.

Bore drannoeth, cyrhaeddodd ei gwaith yn brydlon. Aeth i weld y perchennog yn syth.

"Ydych chi'n meddwl y buaswn i yn cael cymryd Ben?"

"Wrth gwrs" oedd yr ateb pendant.

Y noson honno treuliodd Ben ei noson gyntaf gyda'i berchennog newydd. Cysgodd yn drwm drwy'r nos. Bore drannoeth roedd yn prancio efo Lyn. A dyna oedd y drefn bob dydd – mynd am dro yn y bore a'r hwyr a digon o fwyd. Un noson, dihunodd Ben yn sydyn. Teimlai'n anghysurus. Roedd rhywbeth yn bod. Roedd arogl dieithr yn ei ffroenau. Arogl nwy oedd yn yr ystafell. Dechreuodd gyfarth ac udo. Clywodd Lyn ei gyfarthiad. Cododd ar ei hunion a mynd i'r gegin lle roedd Ben yn cysgu. Pan agorodd y drws, roedd Ben yn sefyll yn y drws a golwg cynhyrfus iawn arno.

"Be sy'n bod, Ben, bach?" gofynnodd Lyn. Cyfarthodd yn wyllt unwaith eto. Roedd Lyn yn deall ar ei hunion beth oedd yn bod. Roedd hi'n arogli nwy oedd yn llenwi'r ystafell. Gafaelodd yn Ben a'i dynnu gyda hi i'r ystafell nesaf. Ond roedd arogl nwy yno hefyd. Galwodd ar y gwasanaethau brys yn ddiymdroi ac aeth allan o'r fflat.
Cyn pen dim roedd y gwasanaethau brys wedi cyrraedd. Soniodd Lyn wrthyn nhw am yr hyn a wnaeth Ben.
"Dyna gi da" medda hi wrtho a'i fwytho. "Rwyt ti wedi achub fy mywyd i."
Ar ôl y digwyddiad hwnnw bu Lyn a Ben yn ffrindiau pennaf.

Diolch i Ti, O Dduw, am bobl garedig.
Pobl sy'n barod i ofalu am anifeiliaid tebyg i Ben y ci. Amen.

- Pam nad oedd neb eisiau Ben tybed?
- Fedrwch chi feddwl am straeon eraill lle mae anifeiliaid wedi achub pobl?